CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Blynyddol Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/05/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Wil Lake | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Carys Roberts | Caren Jones | Catrin Roberts | Gito Williams | Gwynfor Jones |
| Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Rhian Sanson a Iwan Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – Eitem 19.3
   Mared Llywelyn Williams – Eitem 21
   Lleucu Jones – Eitem 19.2

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 08/04/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Arfon Hughes
   Cafwyd diweddariad ar un o'r materion a drafodwyd y mis diwethaf gan aelod lleol Morfa.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
   Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Mared Llywelyn Williams gario ymlaen fel cadeirydd am flwyddyn arall ac eiliwyd y cynnig gan Catrin Roberts.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gader i Mared Llywelyn Williams am flwyddyn arall ac fe dderbyniodd.
   Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Lleucu Jones fod yn is-gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Arfon Hughes.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i Lleucu Jones fod yn is-gadeirydd ac fe dderbyniodd.

6. **Aelodaeth yr Is-Bwyllgorau**
   Mae'r Clerc wedi anfon rhestr aelodaeth yr Is-bwyllgorau i bawb cyn y pwyllgor. Gan and yw un o'r aelodau newydd yn bresennol ac aelod newydd arall yn cael ei gyfethol heno pasiwyd i roi'r mater ar agenda mis nesaf.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

7. **Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio:**
Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côd Ymddygiad Aelodau, Polisi Pryderon a Chwynion, Ffurflen Bryderon, Trefn Cwyno, Rhestr Asedau, Cynllun Hyfforddiant a Adroddiad Blynyddol.
Cafodd bawb gopi o'r holl ddogfennau drwy ebost i'w darllen cyn y cyfarfod.
Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd.
Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Wil Lake

8. **Ffurflen Flynyddol CTN 2024-2025 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ynglŷd â copiau o'r cysoniad banc a'r cyfrifon -** Clerc
Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol ac Adroddiad Archwiliad Mewnol iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Nid oes risiciau wedi eu codi gan yr Archwilwyr yn eu adroddiad ac felly nid oes angen ei lliniaru unrhyw fater eleni.
Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2024-2025.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gareth Jones

9. **Sedd Wag –** Clerc
Derbyniwyd dau enw ar gyfer y sedd wag yn ward Nefyn.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gynnig y sedd wag i Gruffudd Griffiths, mae Gruffudd yn enedigol o Nefyn a teimlir felly ei fod yn fwy addas i gynrychioli pobol Nefyn.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Arfon Hughes

10. **Ailgylchu yn y Llyfrgell –** Clerc
Ar y 6$^{ed}$ o Ebrill 2025 daeth rheolau ailgylchu newydd i rym yn y gweithle yng Nghymru felly mae angen gwahanu'r ailgylchu o hyn allan yn lle eu bod yn gymysg yn yr un bin. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael y gwahanol opsiynnau ac wedi cysylltu hefo Llyfrgell Nefyn i weld pa opsiwn fyddai orau iddyn nhw.
Penderfyniad: Pasiwd i fynd am yr opsiwn rhataf sef 2 fin 240 litr, un ar gyfer papur a cardfwrdd a'r llall ar gyfer plastigion a caniau a'r ddau ar gasgliad unwaith y mis am ffi o £56 y flwyddyn. Bydd rhaid cadw'r ddau fin yma yn y cefn allan o olwg y cyhoedd.
Cynnig: Carys Roberts   Eilio: Wil Lake

11. **Gwasanaeth dad-orchuddio plac Dr Herbert Rees Wilson –** trefniadau
Mae gwasanaeth dad-orchuddio'r plac wedi ei drefnu ar gyfer prynhawn dydd Gwener y 27$^{ain}$ o Mehefin am 2 o'r gloch. Yn bresennol fe fydd merch a wyres Dr Herbert Rees Wilson, ynghŷd â aelodau'r teulu a perchennog Summer Hill, mae ei ferch am ddweud ychydig o eiriau. Y teimlad yw y dylai aelodau CTN fod yn bresennol a cytunodd y cadeirydd i ddweud ychydig o eiriau hefyd. Mae

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

un o'r aelodau am dynnu llun i'w roi yn y Llanw Llŷn. Mae'r clerc am anfon ebost i atgoffa bawb ychydig o dyddiau ynghynt.

12. **Hyfforddiant Cynghorwyr –** Arfon Hughes
Yn dilyn ebost a yrrwyd i bawb gan y clerc ynglŷn â cyrsiau i gynghorwyr mae un o'r aelodau eisiau i gynghorwyr newydd ystyried mynd ar y cyrsiau yma. Pasiwyd i'w roi ar agenda mis nesaf gan nad yw dau o'r aelodau newydd yn bresennol heno.

13. **Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith –** Cadeirydd
Gad nad yw pawb wedi cael amser i'w ddarllen eto pasiwyd i roi'r mater ar agenda mis nesaf am y tro olaf.

14. **Penwythnos Porthi'r Penwaig – prynu a gosod baneri –** Cadeirydd
Mae'r cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod PPP ac felly eisiau cynnig eto bod CTN yn prynnu baneri draig goch a penwaig ac mae rhai o'r aelodau wedi cytuno i'w rhoi i fyny. Mae'r cadeirydd am gael hyd i'r baneri ac am eu rhannu drwy ebost hefo pawb. Ar ôl gweld poster PPP ar facebook mae'r clerc wedi sylwi nad yw logo CTN ar y posteri ond mae logos sefydliadau eraill sydd yn cefnogi'r PPP arnynt felly mae'r cadeirydd am ofyn wrthynt roi logo CTN ar y posteri hefyd.

15. **Gosod 4 mainc CTN sydd yn iard Twm John –** Clerc (gohiriwyd o bwyllgor Gorffennaf 2024)
Mae dau leoliad wedi cael ei gadarnhau yn barod sef un yn cae chwarae Edern a'r llall yn Mynydd Nefyn felly mae angen penderfynnu ar y ddau leoliad arall.
Penderfyniad: aelodau Morfa i ddewis lleoliad yn Morfa a gadael y llall yn iard Twm John fel un wrth gefn. Gofyn am bris gosod gan ddau gontractwr lleol.
Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Gareth Jones

16. **Meinciau i mynwent Nefyn –** Clerc (gohiriwyd o bwyllgor Gorffennaf 2024)
Mae aelod lleol Nefyn yn awyddus i orffen y gwaith yn y fynwent drwy gael meinciau yno fel a gytunwyd yn wreiddiol. Cytunwyd y byddai'n syniad da cael rhai mewn cylch hefo coeden yn y canol ac fe fydd angen penderfynnu ar leoliad addas yn y fynwent.
Penderfyniad: y clerc i drefnu bod yr Is-bwyllgor mynwentydd yn cyfarfod yn y fynwent i drafod y mater.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gareth Jones

17. **Llwybr Lôn Pwll William – cyfraniad ariannol tuag at roi llechi mân ar y llwybr troed o Pwll William i Lôn Penrallt –** Gareth Jones (gohiriwyd o bwyllgor Ionawr 2025)
Cais yw hwn am gyfraniad ariannol tuag at gorffen y gwaith o ail wynebu'r llwybr troed sydd yn arwain o Lôn Pwll William i Lôn Penrallt.

Penderfyniad: aelod lleol Morfa i gysylltu hefo'r unigolyn a ofynnodd am gyfraniad ariannol i ofyn yn union faint o gyfraniad mae o ei angen a'r clerc i anfon y wybodaeth i bawb ar ebost i wneud penderfyniad sydyn.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Arfon Hughes

**18. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

Dim.

**19. Ceisiadau am gyfraniad ariannol**

1. Rali Ffermwyr Ifanc 2025 Porthdinllaen
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £750.00
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams
2. Alwen Eifion Hughes
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £200.00
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Carys Roberts
3. Theatr Bara Caws
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £175.00
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Caren Jones
4. Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £250.00
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Mared Llywelyn Williams
5. Cylch Meithrin Edern
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £600.00
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Wil Lake
6. Cymdeithas Rieni a Ffrindiau Ysgol Edern
   Penderfyniad: gofyn am fwy o wybodaeth a faint sydd angen arnynt.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones
7. Amgueddfa Forwrol Llŷn
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £750.00 a gofyn am gydnabyddiaeth drwy arddangos logo CTN.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones
8. Ambiwlans Awyr Cymru
   Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
9. Marie Curie
   Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
10. Urdd Gobaith Cymru
    Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
11. SSAFA
    Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
12. Apêl Gisda 40

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

Penderfyniad: gofyn am eu mantolen ariannol erbyn pwyllgor mis nesaf.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gareth Jones

13. Eisteddfod Llangollen
    Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
14. Kids Cancer Charity
    Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
15. Pwyllgor Penwythnos Porthi'r Penwaig
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500.00 ar yr amod eu bod yn arddangos logo CTN ar y posteri.
    Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

**20. Ceisiadau Cynllunio**

1. **C25/0300/42/DT -** Dolwen Lôn Cae Glas, Edern - Dymchwel estyniad unllawr i gefn yr eiddo a chodi estyniad deulawr yn ei le. Newid ffenestr ar edrychiad blaen yr eiddo i ffenestr bae.
   Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Arfon Hughes
2. **C25/0280/42/LL -** 7, Tywod Arian Lôn Golff, Morfa Nefyn - Newid defnydd materol o Prif Gartref (C3) i Lety Gwyliau Tymor Byr (C6)
   Penderfyniad: Gwrthod – gormod o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal. Mae'r trothwy sydd yn dderbyniol ar gyfer y nifer o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal yma yn 15% ac mae'r ffigwr yma wedi cael ei basio gan fod yna 23% o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal yma yn barod.
   Cynnig: Carys Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams
3. **C25/0309/42/DT** - Brigadoon, 6 Stryd Y Plas, Nefyn - gosod paneli solar ar do edrychiad blaen a chefn yr eiddo.
   Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Wil Lake

Ceisiadau Diweddarach

1. **C25/0348/42/LL** - Cwmistir Uchaf Lôn Cae Glas, Edern - Newid defnydd o dŷ gwag (C3) i lety gwyliau tymor byr (C6).
   Penderfyniad: Gwrthod – gormod o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal. Mae'r trothwy sydd yn dderbyniol ar gyfer y nifer o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal yma yn 15% ac mae'r ffigwr yma wedi cael ei basio gan fod yna 23% o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal yma yn barod.
   Cynnig: Caren Jones Eilio: Carys Roberts

**21. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £1496.18 (taliad bacs)
- Mared Llywelyn Williams – taliad y cadeirydd rhif 4 - £300.00

- Cronfa Coffa Wil Pent - £2,000.00
- Cylch Meithrin Nefyn - £5,000.00
- Dragon Signs NW Ltd – 4 sticer 'dim baw ci' i biniau mynwent Morfa - £43.20
- Bacstal Pac – gwasanaeth cyflogau - £165.60
- Zurich Municipal – Yswiriant 2025-2026 - £2046.33
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £25.63
- D.M.Parry – ail daliad mynwent Morfa a pumed taliad mynwent Edern - £750.00
- HMRC – PAYE mis 2 - £471.05
- Alan Adams – ail daliad llwybrau a gwaith ychwanegol - £1943.88
- Tyddyn Sachau – blodau Nefyn - £309.84
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Ebrill - £156.44
- John Gwynfor Jones – agor bedd Mary Catherine Evans - £500.00
- Tyddyn Sachau – blodau Morfa - £215.37
- Mrs Pat Humphreys – Ad-daliad Zoom 2025-2026 - £155.88

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Lleucu Jones

**22. Taliadau wedi eu derbyn**

- Dewi Thomas – angladd Philip Handley Stunt - £1250.00
- Ad-daliad TAW - £32,633.75
- Ifan Hughes – angladd Annie Jones Williams - £915.00
- Praesept - £47,500.00
- Dewi Thomas – angladd Efa Lee Williams - £900.00
- Ifan Hughes – angladd Robert David Jones - £1050.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651